**ARCHWILIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD AC YNYS MÔN**

**GWRANDAWIAD SESIWN 7: MWYNAU A GWASTRAFF**

**Datganiad y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol (MPA)**

**Rhif Sylw 619**

**Mwynau**

**3. A yw'r Cynllun yn sicrhau y bydd y Sir yn gwneud cyfraniad addas i ddiwallu'r galw rhanbarthol am fwynau dros gyfnod y Cynllun?**

**Sylwadau'r MPA**

***Cyflwyniad***

1. Mae peth amheuaeth na fydd y Cynllun yn sicrhau bod y galw tybiedig yn cael ei ddiwallu yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn golygu na fydd yn bodloni'r profion cadernid am y rhesymau canlynol:
    - Nid yw'n addas am ei fod yn gor-symleiddio'r dystiolaeth
    - Ni fydd yn cyflenwi gofynion polisi cenedlaethol os yw'n tan ddarparu mwynau o fathau penodol

2. Byddaf yn archwilio pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei dro yn ôl proses ddosrannu'r DTRh a'r materion sy'n codi o hynny. Ychydig iawn o drafod materion strategol sydd yn yr CDLl ei hun, felly byddwn yn troi at Bapur Testun Mwynau Mawrth 2016 am wybodaeth.

3. Mae tri phrif fater yn codi
    - Darpariaeth ar gyfer cerrig mâl ar Ynys Môn
    - Darpariaeth ar gyfer tywod a graean yng Ngwynedd
    - Cynnwys agregau eilaidd yn y prif fanc tir yng Ngwynedd.

**Ynys Môn**

4. Ym Mharagraff 7.24 y Papur Testun, eglurir y rhesymeg sydd ynghlwm ag adnabod yr Ardaloedd Chwilio (ACh). Ni allwn ganfod sôn yn unman a yw'r awdurdodau ar-y-cyd wedi canfasio'r diwydiant i wneud cais am safleoedd. Ni allwn ganfod unrhyw gyfeiriad at fwynau ym Mhapur Testun 1 nac 1A nac yn yr Adroddiad Ymgynghori. Efallai bod y diwydiant wedi cael ei gynnwys ond nad oedd unrhyw argymellion wedi eu derbyn. Ni ddengys yr ymatebion i Ymgynghoriad Adnau'r CDLl unrhyw osodiadau ar y pwnc.

5. Y rheswm dros grybwyll y cefndir i'r ACh er mwyn tynnu sylw at gyd-destun y datganiad yn y Papur Testun, "*Yn hytrach nag adnabod Safleoedd Penodol neu Ardaloedd a Ffafrir, mae'r Cynghorau wedi ceisio adnabod Ardaloedd Chwilio lle mae'n debyg bydd rhai safleoedd yn briodol ar gyfer cloddio mwynau, gan ddibynnu ar amgylchiadau economaidd ac amgylcheddol*." Mae'r ardaloedd sy'n deillio o hyn yn eithaf cyfyngedig ac yn sgil hyn mae amheuaeth am eu hyfywedd os na cheid unrhyw adborth gan y diwydiant mwynau. Mae Ardaloedd Chwilio fel arfer yn ardaloedd eang ble mae gan weithredwyr rwydd hynt i chwilio am ddyddodion mwynau hyfyw sy'n cymryd y diffyg gwybodaeth fanwl ar fwynau a'r mapio gwallus i ystyriaeth.

6. Ymhellach, er bod y diffyg yn gymharol fach (dosraniad cerrig mâl o 1.31 miliwn o dunelli) mae'n annhebygol y byddai unrhyw weithredwr yn gwneud cais am gyn lleied â hynny yn unig oni bai ei fod yn dod â gweithgaredd i ben mewn mwynglawdd sy'n bodoli eisoes. Yn wyneb costau'r AEA, caniatâd cynllunio a chostau caniatáu, byddai'n rhaid i estyniad boddhaol fod yn llawer mwy er mwyn adennill y gwariant, fyddai'n cwestiynu ymhellach a oedd yr ACh yn ddigonol.

***Gwynedd***

7. Mae'r fethodoleg a amlinellwyd yn Atodiad 1 y Papur Testun yn llawer tebycach i'r dull ACh y mae'r diwydiant yn gyfarwydd ag o, ac yn debyg o ildio mwynau hyfyw rhywle y tu mewn i'w ffiniau. Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach ar ACh tywod a graean.

8. Soniodd un o'n haelodau am y defnydd anghyffredin o wastraff llechi yn cael ei gynnwys ym manc tir agregau 8.51 Mt. Mae adroddiad Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2010 yn cadarnhau bod hyn wedi ei gynnwys trwy gytundeb yn 2009. Mae cynnwys agregau eilaidd yn y prif fanc tir, fodd bynnag, yn medru arwain at sawl problem, yn ddibynnol ar raddfa'r cynnwys. Nid yw'r Cynllun yn dweud faint o ddeunyddiau eilaidd (megis llechi) sy'n rhan o'r banc tir, ond os yw cyfaint y banc tir yn cael ei wyro tuag at ddeunyddiau eilaidd yn sylweddol, bydd yn peri diffyg posib o ddeunyddiau ansawdd uwch, er gwaethaf yr anogaeth y dylid ei rhoi i gynnwys deunyddiau eilaidd.

9. Mae gan wastraff llechi amrywiaeth o ddefnyddiau fel agreg, ond tueddir i'w gyfyngu i lenwi yn y diwydiant adeiladu. Serch hynny, mae llechi wedi ennyn statws MOT Math 1 ac mae'n cael ei ddefnyddio fel tywod haenu. Pery i fod yn wir, fodd bynnag, nad yw'n medru diwallu'r gofynion agreg mwy dyrys. Serch hynny, ac os yw'r banc tir yn cynnwys cyfran go helaeth o lechi, yna mae lle i ystyried meini prawf dosrannu'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (Adolygiad y DTRh, a ddyfynwyd yn y Papur Testun Mwynau paragraffau 6.11 a 6.23) ac asesu;
   - A ddylid darparu mwy oherwydd anawster cyfnewid agreg o safon isel gydag agreg o safon uwch; ac

- A ellir cynnal capasiti cynhyrchu digonnol ar gyfer deunyddiau o safon uwch.

Yn y Papur Testun Mwynau cyfaddefir bod problem efallai'n bodoli gyda'r ddarpariaeth o ddeunyddiau o safon uwch ym mharagraff 6.24, "*Yn benodol, mae cryn dipyn o'r banc tir presennol o graig fâl yng Ngwynedd yn cynnwys caniatadau mewn chwareli llechi a thomennydd gwastraff llechi ac er y gellir cyfnewid agregau llechi am fathau eraill o graig mewn nifer o sefyllfaoedd, nid yw'n addas ym mhob sefyllfa. Bydd felly angen dyraniadau ychwanegol ar gyfer mathau eraill o greigiau mâl a pharhau i adolygu'r sefyllfa*." Nid yw'r asesiad y mae ei angen ar y DTRh, fodd bynnag, wedi ei gynnwys yn y Cynllun, er bod y posibilrwydd yn cael ei grybwyll ym mharagraff 6.24 y Papur Testun. Yn y cyd-destun hwn, buasem yn ceisio polisi sydd wedi ei eirio'n addasadwy/hyblyg a chanddo'r gallu i ymdrin â diffygion posib heb fod angen am adolygiad cyflawn.

***Argymhellion dros Newidiadau***

10. Nid ydym yn credu bod y polisi Drafft Adnau yn ddigon hyblyg i fedru ystyried yr elfenau ansicr hyn. Ni ddywedir unrhyw beth am y dadansoddiad hwn ym **Mholisi PS19** ac rydym o'r farn nad yw'n mynd yn ddigon pell wrth sicrhau argaeledd mwynau'n barhaus, sef ei amcan. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosib na fydd y nod syml o gynnal banc tir sylfaenol yn ddigonol (Polisi MWYN2 a Pholisi MWYN4).

11. Rydym yn argymell y newidiadau canlynol i **Bolisi PS19**, sydd wedi ei gyweirio i weddu i'r dystiolaeth ac sy'n unol â chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol, (testun newydd mewn **ysgrifen drom**)

    5 Ble mae angen am gynhwysedd newydd o fwynau eraill, dylai'r rhain ddod o leoliadau gyda chyfyngiadau amgylcheddol isel a dylid ystyried goblygiadau trafnidiaeth.

    <u>Maen prawf newydd</u> – **Sicrhau cynhaliaeth o'r banc tir agregau gan gynnwys darpariaeth ddigonol a medrau cynhyrchiol ar gyfer agregau o safon uwch o leoliadau yn yr Ardaloedd Chwilio.**

**4. A fydd y Cynllun yn llwyddo i ddarparu banc tir gyda gwerth 7 mlynedd o dywod a graean a banc tir gyda gwerth 10 mlynedd o agregau cerrig mâl dros gyfnod y Cynllun?**

**Sylwadau MPA**

1. Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn ddibynnol iawn ar ddigonolrwydd yr Ardaloedd Chwilio ac os yw'r angen am ddarpariaeth ar gyfer mwynau o ansawdd arbenigol penodol yn unol â methodoleg Adolygiad yr ACh yn cael ei gydnabod. Mae'r cwestiwn a yw polisi yn cydnabod y pwyntiau hyn yn ddigonol ac yn cael ei roi ar waith mewn ffordd hyblyg yn codi pwynt perthnasol.

2. O ran y banciau tir, fe wnaethom ofyn am newidiadau i **faen prawf 2** ym **Mholisi PS19** fel a ganlyn, (testun newydd mewn **ysgrifen drom**)

   Cynnal banc tir gyda gwerth 7 mlynedd o Dywod a Graean, **o leiaf**, a banc tir gyda gwerth 10 mlynedd, **o leiaf,** o agreg cerrig mâl wrth gefn **trwy gydol cyfnod y cynllun** yn unol â chanllawiau cenedlaethol

3. Ystyriwn y byddai hyn yn golygu bod y polisi yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol (MTAN1 para 49) ac felly'n gwneud y polisi'n fwy effeithiol (medru cael ei weithredu) ac rydym yn ei gyflwyno i'w Archwilio.

## 5. A yw'r Cynllun yn ddigon cefnogol o geisiadau i fwyngloddio ac yn amddiffynnol o'r ardaloedd diogelu mwyngloddio?

**Sylwadau MPA**

***Ceisiadau ar gyfer Mwyngloddio***

1. Nid yw Polisi PS19 yn ymrwymo'r Cynghorau, mewn ffordd rhy amlwg, i sicrhau bod ceisiadau derbyniol a gafodd eu cyflwyno yn yr Ardal Chwilio yn cael eu gweithredu, nac i ystyried anghenion/diffygion penodol yn y banc tir (gweler ateb i gwestiwn 3 uchod). Mae **Polisi MWYN4** yn well o ran bod y rhagair yn disgrifio'r math o gynnig a fyddai'n derbyn caniatâd cynllunio. Fe wnaethom gyflwyno awgrymiadau er gwella'r polisi hwn ac maent wedi eu derbyn, ystyriaeth yr ydym yn ddiolchgar amdano. Fe allai'r polisi, fodd bynnag, fod yn fwy eglur o ran cefnogi ceisiadau cynaliadwy sy'n cydymffurfio â'r newidiadau yr ydym ni'n eu cynnig ar gyfer Polisi PS19.

2. Rydym felly'n cynnig y newidiadau canlynol i ragair **Polisi MWYN4** (testun newydd mewn **ysgrifen drom**).

   Bydd caniatâd yn cael ei roi i chwilio am fwynau, safleoedd gwaith **mwyn newydd** neu estyniadau i weithrediadau cyfredol **sydd yn yr Ardal Chwilio** er mwyn cynnal

banc tir ardal agregau ardal y Cynllun, neu er mwyn diwallu angen amlwg am **agregau o ansawdd arbennig na ellir ei ddiwallu trwy ffynhonellau cyfredol, neu er mwyn cynnal capasiti cynhyrchu agregau o ansawdd uwch, neu er mwyn diwallu angen amlwg am** fwynau eraill, ar yr amod bod y meini prawf hyn yn cael eu diwallu:

3. Mae'r newid arfaethedig hwn yn ymdrin â chymwysedd y broses ddosrannu sy'n rhan elfennol o'r DTRh ac fe'i crybwyllir ym mharagraffau 6.11 a 6.23 y Papur Testun. Y rhain yw:
   - Gallu technegol un math o agreg i gael ei gyfnewid am un arall
   - A ellir cynnal capasiti cynhyrchu digonol i ddiwallu'r lefel angenrheidiol o gyflenwad.

4. Mae'r newid arfaethedig hefyd yn ymdrin â'r sefyllfa a ddisgrifir ym mharagraff 6.25 o'r Papur Testun ble mae caniatadau newydd ar gyfer cerrig mâl yng Ngwynedd yn gorfod bod yn ddibynnol ar gyfiawnhau angen penodol am fwyn o ansawdd penodol.

**Ardaloedd Diogelu Mwynau**

**Map Cynigion**

5. Mae **Polisi MWYN1** yn dweud bod Ardaloedd Diogelu Mwynau (ADMau) yn cael eu dynodi ar y Map Cynigion, ond ni allaf gael hyd iddynt ar unrhyw un o'r mapiau ar wefan y Cyngor. Fe'u dengys, fodd bynnag, ar y Map Cyfyngiadau. Mae hyn yn amlwg yn groes i'r arfer a ddim yn cydymffurfio â PCC para 14.7.3 ac fe ddylai'r ADMau, er tegwch, ymddangos ar y Map Cynigion yn unol â geiriad y polisi.

**Rheoli Datblygiad**

6. Gosodwyd y ddadl yn y sylwadau fod y meini prawf rheoli datblygu ym **Mholisi MWYN1** yn annealladwy, ac y gallant fod yn beryglus. Yn arbennig, buom yn pendroni tybed beth mae 'ardrawiad sylweddol ar hyfywedd datblygu'r mwyn yn y dyfodol' yn ei olygu. Mae rhai MPAS o'r farn, os yw datblygiad yn sterileiddio mwyn ond bod yr ardal yn fach o'i chymharu ag ardal gyfan y dyddodion mwynol, yna mae'n dderbyniol cymeradwyo'r sterileiddiad. Mae'r MPA, fodd bynnag, yn credu mai ynfydrwydd yw hyn. Nid yw penderfyniadau fel hyn yn ystyried cymaint y mae datblygiad mwynol eisoes yn cael ei gyfyngu gan y system gynllunio, a pha mor anodd yw hi i'r diwydiant ganfod safleoedd derbyniol i weithio ynddynt. Y gymhariaeth gywir fyddai un sy'n absoliwt o ran cynhwysedd y mwyn sy'n cael ei sterileiddio. Felly, rydym yn awgrymu y dylai'r frawddeg annelwig hon gael ei chyfnewid am un sydd ag ystyr mwy pendant.

7. Yn ein sylwadau, awgrymwyd fod y meini prawf arfaethedig yn annealladwy am fod 'echdyniad blaenorol' yn ymddangos yn y naill a'r llall. Beirniadasom y polisi hefyd am nad oedd yn cynrychioli arfer da fel argymellir yng nghanllaw'r BGS, sy'n cael ei gydnabod yn ddilys yng Nghymru. Er enghraifft, dywed yr Archwiliwr yn ei Adroddiad ar gyfer Archwiliad

CDLl Caerdydd fod "yr ymdriniaeth gyffredinol o warchodaeth yn adlewyrchu'r hyn a amlinellir yng nghanllaw arfer da Cymdeithas Ddaearegol Prydain (BGS) cyhyd a bod hyn yn gyson â Pholisi Cymru." (para 12.6). Mae'r dyfyniad yn cyfeirio at ganllaw 2011. Mae'r Adroddiad yn cefnogi Polisi (M7) newydd a dderbyniodd gefnogaeth gan y diwydiant. Caiff detholiad o Adroddiad yr Arolygwr a'r polisi a dderbyniwyd eu dangos yn **Atodiad MPA1**. Byddem yn cymeradwyo geiriad y polisi hwn i'r Archwiliad am ei fod yn dilyn arfer da yn llym ac yn gynhwysfawr wrth gyflwyno'r adnoddau rheoli datblygu sydd eu hangen ar yr MPA er mwyn medru asesu, yn gyflawn a theg, rinweddau perthnasol sterileiddio potensial o ddatblygiad adeiledig yn ôl yr angen i ddiogelu adnoddau mwynol hanfodol.

8. Mae'r unig faen prawf a hyrwyddir gan yr MPA ond sydd heb ei dderbyn ym mholisi Caerdydd ac sydd hefyd yn cael ei argymell gan y BGS fel a ganlyn:

    **Mae'n ymwneud â 'datblygiad eithriedig', sef ceisiadau gan berchennog tŷ a datblygiad sydd eisoes wedi ei glustnodi mewn cynllun statudol.**

9. Mae eithriadau o gymorth i'r ACLl wrth loffa datblygiadau llai fyddai'n drafferthus i'r ACLl i'w sgrinio o ran eu hardrawiad ar yr ADM, ac wrth loffa dyraniadau mewn Cynllun Lleol ble mae'r egwyddor o sterileiddio mwynol yn hanfodol i ddatblygiad sydd wedi mynd rhagddo. Er na chafodd y maen prawf hwn ei roi ar waith yng nghynllun Caerdydd, rydym yn dal i gredu ei fod yn arfer da ac yn ei gymeradwyo i'r Archwiliad er mwyn iddo gael ei gynnwys yn y polisi hwn.

10. Rydym hefyd o'r farn ei fod yn ddoeth cynnwys gofyniad am adroddiad arbenigol sy'n manylu ar ardrawiad unrhyw ddatblygiad ar yr ADM a dichonolrwydd echdyniad blaenorol. Os nad yw hwn yn ymddangos fel rhan o'r polisi, fe ddylai, yn ein barn ni, fod yn rhan o'r testun ategol. Argymhellwn y testun canlynol sy'n seiliedig ar arfer da mewn llefydd eraill.

    **Ac eithrio datblygiad eithriedig, dylid cynnwys Adroddiad Asesiad Mwynau gyda phob cais mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau wedi ei baratoi gan berson cymwys, sy'n cynnwys asesiad desg gofod-benodol o'r arwyneb bresennol a gwybodaeth am adnoddau daearegol caled a mwynol, gan gynnwys, ble bo'n briodol, data twll turio sy'n arwain at ddyfynbris o werth economaidd (er enghraifft, ansawdd a swm) yr adnodd mwynol, ei ddefnydd potensial yn y datblygiad sydd ar y gweill ac asesiad i weld a fyddai echdynnu'r adnodd mwynol cyn y datblygiad er mwyn osgoi unrhyw sterileiddiad anorfod yn ddichonol a hyfyw. Ble gellir ymgymryd â gwaith echdynnu o flaen llaw, dylid cynnwys eglurhad o'r modd y bydd hyn yn mynd rhagddo fel rhan o'r cynllun datblygu cyflawn.**

**6. A ddylai adnabyddiaeth ofodol yr 'Ardaloedd a Ffafrir (polisi MWYN2 yn dilyn NF93) gael eu dangos ar y Map Cynigion yn hytrach nag ar y Map Cyfyngiadau (gweler mân newid i'r polisi hwnnw)?**

**7. Ydi'r dull o adnabod Ardaloedd a Ffafrir yn rhoi ffordd effeithiol o ddiwallu'r diffyg adnabyddedig yn narpariaeth agregau ardal y Cynllun?**

**Sylwadau MPA**

1. Dylai'r Ardaloedd a Ffafrir gael eu dangos ar y Map Cynigion fel sy'n ofynnol gan y PCC paragraff 14.7.10. Yn wir, credaf eu bod erbyn hyn yn cael eu dangos ar y Map Cynigion.

2. Nid ydym yn gwybod i sicrwydd a oes bwriad i'r ardaloedd sydd wedi eu rhestru ym **Mholisi MWYN3** ddod yn 'Ardaloedd a Ffafrir' neu yn 'Ardaloedd Chwilio'. Fel eglurwyd yn ein cynrychioliadau, mae'r term 'Ardaloedd Chwilio a Ffafrir' yn uno dau gysyniad cynllunio mwynol, fe'i heglurir yn y PCC paragraff 14.7.10. Mae'n amlwg o'r disgrifiad o'r ardaloedd a geir yn nhestun ategol y Cynllun (paragraffau 7.5.67 – 7.5.69) mai Ardaloedd Chwilio ydynt am fod y Cynghorau'n ansicr a ydynt yn cynnwys Mwynau ar raddfa fasnachol ai peidio. Dylid newid y gyfundrefn enwau yn y polisi a'r testun ategol er mwyn bod yn glir i ba gategori y mae'r Ardaloedd yn perthyn, a byddai hyn yn osgoi dryswch. Mae PCC, fodd bynnag, hefyd yn dweud na fydd, fel rheol, yn briodol adnabod ardaloedd chwilio yn unig mewn cynllun a '*byddai angen cyfiawnhad cyflawn os ymgymerir ag ymdriniaeth o'r fath'*. (PCC paragraff 14.7.10). Nid yw'n ymddangos bod hyn wedi ei gynnwys yn y testun ategol ac mae'r hepgor hyn yn golygu nad yw'r cynllun yn gadarn.

3. Nid oes unrhyw reswm pam na all ymdriniaeth Ardal Chwilio (ACh) fod yn effeithiol, cyn belled â bod y wybodaeth y mae'r ymdriniaeth yn seiliedig arni yn ddigon da, sydd fel arfer yn awgrymu: y mwyaf yw'r ardal a bennir y mwyaf tebygol yw y bydd mwynau yn cael eu canfod yno. Yn ogystal, ni ddylid arddel yr ymdriniaeth os yw'r diwydiant wedi cynnig ceisiadau ar gyfer dyraniad â gwybodaeth fwy manwl yn perthyn iddynt. Nid wyf yn gwybod a yw hyn wedi digwydd, ynteu a yw'r ymdriniaeth a dderbynwyd wedi ei dderbyn am nad oes yr un gweithredwr wedi ei gynnig ei hun gyda safle arfaethedig. Mae ymdriniaeth yr ACh, wrth reswm, yn fwy ansicr na dyraniad Safleoedd Penodol neu Ardaloedd a Ffafrir a hyn, y tybiwn, yw'r rheswm pam fod angen am gyfiawnhad pellach gan bolisi cenedlaethol. Rydym yn credu ei bod yn bwysig cadw'r derminoleg gywir mewn CDLl ar gyfer dyraniadau mwynol am fod ymdriniaeth y diwydiant ohonynt yn dibynnu ar eu categorïad.

4. Awgrymwn fod y term 'a ffafrir' yn cael ei hepgor o'r ardaloedd chwilio ym **Mholisi MWYN3** er mwyn ymdebygu polisi cenedlaethol yn fwy.

**8. A yw polisi MWYN6 yn rhagnodol heb fod angen o ran y clustogfeydd, yn arbennig y clustogfeydd damcaniaethol?**

Sylwadau MPA

1. Nid ymddengys **Polisi MWYN6** yn rhy ragnodol ac nid yw'n adlewyrchu geiriad yr MTAN1 paragraff 14.7.16 sy'n nodi'r pellteroedd lleiaf ar gyfer clustogfeydd *"oni bai bod rhesymau clir a chyfiawn am leihau'r pellter. Gellid dweud, er enghraifft, o ganlyniad i ddulliau rheoli amgen, bod ardrawiad y safle mwyngloddio yn fychan iawn."* Mae'r polisi a gyflwynwyd yn ymddangos yn rhy ragnodol ac nid yw'n adnabod yr ystyriaeth hon a geir mewn polisi cenedlaethol.
2. Rydym yn falch o weld, fodd bynnag, bod NF96 yn cynnwys yr amod/cyfyngiad hwn, a buasem yn ei gefnogi am ei fod yn rhoi ystyriaeth i'r newidiadau mewn arferion gwaith a fyddai'n lleihau'r baich amgylcheddol ar gloddio ac o ganlyniad yn cyfiawnhau clustogfa lai.

**Detholiad o GDLl Caerdydd – ATODIAD MPA 1**

**Derbyniwyd Ionawr 2016**

**5.386. Fel arfer, nid oes angen caniatâd cynllunio penodol fel arfer ar weithrediadau sy'n ymwneud â thrawslwytho mwynau y tu mewn i ardal weithredol y porthladd. Ond, fel arfer, bydd angen caniatâd ar brosesau eilaidd gan gynnwys cynhyrchu neu ymdriniaeth o gynnyrch mwynol. Ble cyflwynir ceisiadau, bydd angen iddynt ddangos yr ardrawiad lleiaf bosib ar yr amgylchedd. Ble mae ceisiadau yn debyg o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, fe all y ceisiadau fod yn ddarostyngedig i Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol. Yn ogystal, bydd rhaid i geisiadau gymryd sylw o'r dynodiadau SoDdGA/ACA/AGA a safle Ramsar, a ble mae ceisiadau yn debyg o gael effaith sylweddol ar safle rhyngwladol, byddai rhaid mynd i'r afael ag asesiad priodol o'r cais.**

M7: DIOGELU ADNODDAU TYWOD A GRAEAN, GLO A CHALCH

Ni fydd datblygiad yn cael ei ganiatáu yn yr Ardaloedd Diogelu Tywod a Graean, Glo a Chalch a ddangosir ar y Map Cynigion a fyddai'n sterileiddio'r adnoddau mwynol hyn yn barhaol, oni bai:

I. Fod yr ymgeisydd yn medru dangos, er bodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol, nad yw'r mwyn dan sylw bellach o unrhyw werth adnoddol ac nad oes ganddo werth adnoddol potensial; neu
II. Fod y mwyn yn gallu cael ei fwyngloddio yn foddhaol cyn i'r datblygiad anghydnaws fynd rhagddo; neu
III. Bod y datblygiad anghydnaws yn digwydd dros dro yn unig ac yn medru cael ei gwblhau a'r safle yn medru cael ei ddychwelyd i gyflwr nad sy'n sterileiddio'r adnodd nac yn cyfyngu ar fwyngloddio yn y cyfnod amser y bydd angen tebygol am y mwyn; neu
IV. Bod galw hollbwysig am y datblygiad anghymharus sy'n bwysicach na'r angen am yr adnodd, gan gynnwys gofyniad am echdyniad blaenorol os yn ddichonadwy.

5.387. Nod y Polisi yw sicrhau bod yr ardaloedd diogelu tywod a graean, glo a chalch a adnabuwyd ar y Map Cynigion yn cael eu diogelu rhag datblygiad a fyddai'n peri eu sterileiddiad a'u diogelu ar gyfer y dyfodol, pe cyfyd angen am yr adnoddau. Er mwyn sicrhau hyn bydd y Polisi hwn yn rhestru amrywiaeth o feini prawf y bydd ceisiadau datblygu yn ddarostyngedig iddynt.

DEDDF CYNLLUNIO A PHRYNU GORFODOL 2004 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

ADRAN 64

**ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD I GYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD**

**2006-2026**

Cyflwynwyd y cynllun i'w archwilio ar 14 Awst 2014

Cynhaliwyd Gwrandawiadau'r Archwiliad rhwng 13 Ionawr a 27 Chwefror 2015 ac ar 28 a 29 Medi 2015

...wedi ei echdynnu ynghyd â chalch at ddiben agregau ac y gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng y deunyddiau a gynhyrchir ar gyfer y ddwy farchnad wahanol tan ar ôl iddo gael ei brosesu. Yn hynny o beth, ac o gofio bod y Cynllun yn darparu ar gyfer diogelu cronfeydd ac adnoddau potensial o galch, nid yw hepgoriad o'r fath yn gwneud y cynllun yn llai cadarn. Ymhellach, dim ond ardal fechan o Gategori 1 HSA y tu mewn i ffiniau gweinyddol Caerdydd ac sy'n cael ei adnabod, am fod hon eisoes wedi ei diogelu gan yr Ardal Warchod Glo, nid yw'n ymarferol nac yn angenrheidiol i adnabod yr ardaloedd hyn ar wahân.

12.4 Polisi M1: Mae 'Adnoddau a Chronfeydd Mwynau Calch' yn ceisio diogelu cronfeydd mwyn rhag datblygiadau a allai beri sterileiddiad, ac a fyddai'n arwain at fethu eu mwyngloddio. Mae **MAC60** yn diwygio'r Polisi hwn gan hefyd adnabod ardaloedd adnodd yn Chwareli Creigiau a Thon Mawr fel 'Ardaloedd a Ffafrir' gydag adnodd sicr sy'n addas ar gyfer gweithfeydd calch yn y dyfodol. Mae'r newidiadau hyn yn dileu amwysedd, yn adlewyrchu polisi cenedlaethol ac felly yn cael eu hargymell.

12.5 O ran y dull o ddiogelu, cytunwyd yn y Gwrandawiadau y gellid cyfuno tri pholisi gwahanol oedd wedi eu cynnwys yn y fersiwn o'r Cynllun a gyflwynwyd yn un polisi yn seiliedig ar un maen prawf yn effeithiol, gan ychwanegu at y fframwaith a osodwyd gan Bolisi KP11. Yn unol â hyn, mae **MAC64**, **MAC65** a **MAC66** yn dileu Polisïau M7, M8 ac M9, a MAC67 ac ar yr un pryd yn cyflwyno polisi newydd sy'n integredig ac yn seiliedig ar feini prawf, sef, Polisi M7: 'Diogelu Adnoddau Tywod a Graean, Glo a Chalch'. Mae'r Polisi M7 newydd wedi cael adborth gan y diwydiant, a byddai'n cynnig gwell eglurder ac yn galluogi asesiad mwy cytbwys a rhesymol o gynigion datblygu a gyflwynir ar gyfer ardaloedd diogelu cydnabyddedig. Mae hefyd yn egluro'r rhesymeg dros beidio adnabod yr adnodd Tywodfaen Categori 1 HSA bychan ar wahân, fel noder uchod. Mae'r newidiadau hyn yn hanfodol er cadernid ac felly'n cael eu cymeradwyo.

12.6 Mae'r ymdriniaeth gyffredinol o ran diogelu yn adlewyrchu'r hyn a geir yng nghanllaw arfer da y Gymdeithas Ddaearegol Brydeinig (BGS) cymaint â'i fod yn cydfynd â Pholisi Cymreig. Ymhellach, mae'r ardaloedd diogelu tywod a graean, glo a chalch yn hawdd i'w hadnabod ar y Map Cynigion. Mae'r **MAC PM16**, sy'n eithrio dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol o bwys amgylcheddol a diwylliannol o'r ardal diogelu glo, fodd bynnag, yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb gyda gofynion polisi cenedlaethol. Felly hefyd, mae'r newidiadau a gynigwyd trwy'r **MAC PM17** yn hanfodol er mwyn cywiro camgymeriadau ar y Map Cynigion ac felly fe'i hargymellir. Ar sail hyn, ac yn ddarostyngedig i'r MACs a argymhellir yn yr adroddiad hwn, rydym yn fodlon bod sylfaen y dull o ymdrin â diogelu yn gadarn.

12.7 Ac eithrio'r ffaith bod banc tir mwynau presennol Caerdydd yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd yn rhaid rhoi caniatadau pellach i ryddhau adnoddau mwynau yn ystod cyfnod y Cynllun, mae Polisi M2: 'Trefn Rhyddhau Adnodd Mwyn a Ffafrir', yn rhestru'r ymdriniaeth ddilyniannol

fyddai'n rhaid ei arddel er mwyn asesu'r fath angen petai rhaid gwneud hynny. Byddai hwn, ynghyd â **MAC75**, sy'n galluogi'r fframwaith fonitro i fonitro sefyllfa'r banc tir yn effeithiol, yn sicrhau bod ymdriniaeth y Cynllun yn ddigon hyblyg i fedru ymdrin ag amgylchiadau cyfnewidiol. Ymhellach, yn ddarostyngedig i **MAC61**, sy'n gwella'r